

A oes Heddwch?...

... oedd y cwestiwn a ofynnwyd yn Eisteddfod Ysgol Dyffryn Conwy ar ddydd Llun, y 3ydd o Orffennaf 2017. Cafodd 'heddwch' ei adleisio yn uchel iawn yn neuadd yr ysgol wrth i enillydd y brif gystadleuaeth lenyddol gael ei gadeirio. Yn ystod y seremoni fawreddog, cododd Owain Vaughan o Flwyddyn 12 ar ei draed ar ôl i'w ffugenw 'Pawb' gael ei gyhoeddi. Daeth ymson Owain o dan y teitl 'Cyfrinach' i'r brig allan o dair ymgais ar ddeg. Cafodd y llenor buddugol ei gadeirio gan Orsedd urddasol o ddisgyblion dan arweiniad yr Archdderwydd o flwyddyn 12.

Y seremoni gadeirio oedd uchafbwynt wythnos gyffrous o gystadlu wrth i'r Eisteddfod ysgol gael ei chynnal am y pedwerydd tro ers ei hail-gyflwyno yn 2011. Bu disgyblion o'r pedwar tŷ - Geirionnydd, Gwydir, Crafnant a Hiraethog yn cystadlu ar y llwyfan ac yn y cystadlaethau gwaith cartref gan gyrraedd pinacl yn ystod pnawn Llun hwyliog a brwd o gystadlu gan y staff a'r disgyblion.

Roedd y beirniaid – Erin Gwyn Rossington, Rhodri Sion ac Angharad Jones-Young yn gyn-ddisgyblion a chyn enillwyr yn yr Eisteddfod ac fe gafwyd Dilwyn Price i gwblhau'r tim. Bu'r pedwar yn brysur iawn yn beirniadu mor broffesiynol ac adeiladol ac roeddent i gyd yn canmol ymddygiad ac ymdrech y disgyblion a safon uchel y perfformiadau. Cafwyd enillwyr haeddiannol iawn hefyd yn y tair prif gystadleuaeth arall, a gwelwyd nifer uchel o ymgeiswyr. Cafodd y goron gywrain ei dylunio a'i chrefftio gan Heledd Griffiths, Pennaeth yr Adran Ddylunio a Thechnoleg ac fe'i noddwyd gan gwmni Menyn's. Enillydd y goron oedd Gwenan Lewis o Flwyddyn 12 a ysgrifennodd gerdd Saesneg o dan y teitl 'Space'. 'Blas ar Fwyd' oedd noddwyr y Fedal Gyfansoddi a'r enillydd oedd Cadi Gwyn Edwards, un o gapteiniad y tai o Flwyddyn 12. Noddwyd y Fedal Ddrama gan 'Bys a Bawd', a'r enillydd oedd Awel Jones o Flwyddyn 12, hefyd yn un o'r capteiniaid tŷ. Cyflwynwyd tlws parhaol i bob un o'r prif enillwyr yn ogystal.

Cyflwynwyd Tarian 'Menter Iaith Conwy' i Aron Brenig Jones, BL.7 am y perfformiad gorau yn yr adran lefaru. Enillydd Tarian 'Lle Hari- Y Dolydd' am y perfformiad gorau yn yr adran ddawns oedd Grwp clocsio Gwydir o flwyddyn 7. Datganiad cerddorol ar y ffliwt gan Christopher Sabisky oedd enillydd y darian am y perfformiad gorau yn yr adran gerddoriaeth. Noddwyr y gystadleuaeth hon oedd cwmni Edwards o Gonwy.

Tŷ Hiraethog enillodd gwpan 'Siwgr a Sbeis' am y côr buddugol a Gwydir aeth â chwpan 'Y Tanerdy' am y parti llefaru buddugol. Roedd yna ddisgwyl mawr i glywed y canlyniad terfynol sef y Gwpan i'r tŷ buddugol, a noddwyd gan 'Dir a Môr'. Roedd hi'n agos iawn, ond Geirionnydd aeth â hi.

Cafodd Andrea Parry, trefnydd yr Eisteddfod ei syfrdanu gan y gefnogaeth.

"Mae'r busnesau lleol wedi bod yn hael a chefnogol iawn yn noddî'r prif gystadlaethau. Diolch o galon i bawb a gyfranodd tuag at yr Eisteddfod mewn unrhyw fodd, yn arbennig felly capteiniaid y tai am eu trefniadau a'u hymroddiad, y staff a'r cystadleuwyr am eu brwdfydedd a safon arbennig eu perfformiadau a'r gynulleidfa wresog."

Roedd Eisteddfod yr ysgol yn llwyddiant ysgubol ac yn un o uchafbwyntiau'r flwyddyn ysgol, ac mae'r tai yn ysu am gael dechrau meddwl am syniadau ar gyfer y flwyddyn nesaf.